

ADRODDIAD CLWSTWR AR Y DIWYDIANNAU CREADIGOL RHIF 1

MAINT A CHYEANSODDIAD Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YNG NGHYMURU

Marlen Komorowski a Justin Lewis
Mai 2020

clwstwr



MetCaerdydd
CardiffMet



Creative
Clusters



YNGLŶN Â'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd sydd â'r nod o roi arloesi wrth wraidd y broses o gynhyrchu cyfryngau yn Ne Cymru. Mae Clwstwr yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant De Cymru o ran creu cynnwys creadigol drwy roi ymchwil a datblygu wrth wraidd y broses gynhyrchu.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â:

CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 02922 511434
E-bost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

PRIF GANFYDDIADAU

Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu economi Cymru, y mae Caerdydd yn rhan annatod ohoni.

Cymru

Mae 8,000 o fentrau

ar waith yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Mae 500 o fentrau newydd

yn ymuno â'r diwydiannau creadigol yng Nghymru bob blwyddyn, gan ei gwneud yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.

Mae 80,000 o bobl

yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru (fel gweithwyr cyflogedig a gweithwyr llawrydd)

Mae 98% o'r cwmnïau

yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn rhai bach ac yn cyflogi llai na 50 o bobl.

Caerdydd

Mae 80%

o weithgareddau'r diwydiannau creadigol yn cael eu cynnal yn ardal De Cymru, y mae Caerdydd yn rhan annatod ohoni.

Mae 15%

o'r holl fentrau yng Nghaerdydd yn perthyn i'r diwydiannau creadigol, ymhell uwchlaw cyfartaledd y DU, sef 11%.

Mae

3,210

o weithwyr yn sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth Caerdydd.

4,174

o weithwyr yn sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol Caerdydd; a

2,403

o weithwyr yn sector cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol Caerdydd.

Cynnwys

PRIF GANFYDDIADAU	0
Cynnwys.....	2
Cyflwyniad	4
Methodoleg	6
Proses casglu data.....	6
Proses cysoni data.....	6
Amcangyfrifon ar sail rhagdybiaethau	7
Yr ardaloedd daearyddol a gwmpesir	7
Diffinio'r diwydiannau creadigol	8
Canfyddiadau.....	9
Mentrau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru	9
Niferoedd allweddol	9
Strwythur a throsiant cwmnïau.....	10
Nifer y mentrau yn ôl sector.....	10
Cyfraddau twf a mentrau newydd	11
Gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru	13
Niferoedd allweddol	13
Maint cwmnïau a dosbarthiad sectorau yn seiliedig ar nifer y gweithwyr.....	13
Cyfraddau cynnydd yn nifer y gweithwyr	15
Cydnabyddiaeth ariannol yn y diwydiannau creadigol	16
Cydbwysedd rhwng y rhywiau	18
Daearyddiaeth y diwydiannau creadigol yng Nghymru	20
CASGLIAD	25
Atodiadau.....	27
Atodiad 1: Terfynau methodolegol	28
Atodiad 2: Codau SIC 2007 y diwydiannau creadigol.....	29
Atodiad 3: Canlyniadau poblogaeth mentrau.....	30
Atodiad 4: Canlyniadau gweithwyr	31
Atodiad 5: Ynglŷn â'r awduron.....	32

Cyflwyniad

Mae academyddion a llunwyr polisïau trefol wedi rhoi cryn sylw i bwysigrwydd y diwydiannau creadigol i ddatblygu trefol ers y 1990au. **Ystyrir bod y diwydiannau creadigol yn ffordd o sicrhau adfywio trefi a'r economi**, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae diwydiannau wedi'u hailstrwythuro.

Mae llunwyr polisïau lleol yn cydnabod yn gynyddol bwysigrwydd y diwydiannau creadigol i Gymru. Ers 2010, mae Tîm Cymorth Creadigol Llywodraeth Cymru wedi cefnogi sectorau creadigol allweddol, yn enwedig ffilm a theledu, gan helpu i ddod â Stiwdio Blaidd i Fae Caerdydd. Yn 2016, sefydlwyd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r 10 awdurdod lleol yn Neddwyrain Cymru er mwyn sicrhau twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth drwy fuddsoddi, uwchsgilio a gwella cysylltedd ffisegol a digidol. Mae'r diwydiannau creadigol yn un o chwe phrif sector targed y Fargen Ddinesig.¹ Ar ddechrau 2020, lanswyd Cymru Greadigol gan Lywodraeth Cymru,² gan ganolbwyntio ar y sectorau Ffilm a Theledu, cerddoriaeth a digidol.³ Mae

Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn cyn pandemig COVID-19. Mae'n cyfleu darlun o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru cyn ansicrwydd COVID-19, sydd wedi cael effaith fawr ar lawer o fusnesau a gweithwyr llawrydd creadigol, y mae llawer ohonynt yn wynebu colledion sylweddol mewn refeniw. Mae'r adroddiad hwn yn darparu llinell sylfaen a fydd yn ein galluogi i gynnal asesiadau manwl yn y dyfodol o effaith COVID-19 ar y diwydiannau creadigol yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

¹ Gweler <https://www.cardiffcapitalregion.wales/news-post/cardiff-capital-region-industrial-and-economic-growth-plan-is-showcased-at-largest-property-exhibition-in-the-world/>

² Cyhoeddodd Cymru Greadigol niferoedd allweddol ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2020 (gweler <https://www.wales.com/creative-wales>). Mae'r niferoedd a gyflwynwyd gan Cymru Greadigol yn wahanol i'r niferoedd a gyflwynir yma gan fod gwahanol ffynonellau data a phroses gysoni wahanol wedi'u defnyddio. Mae Cymru Greadigol yn nodi bod, "Y diwydiannau creadigol yn cynrychioli un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, gyda throsiant blynyddol o fwy na £2.2 biliwn, ac mae'n cyflogi dros 56,000 o bobl – 40% yn fwy na 10 mlynedd yn ôl."

³ Gweler <https://gweddill.gov.wales/topics/businessandconomy/our-priority-sectors/creative-industries/?lang=cy>

Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi'r diwydiannau creadigol yn un o dri sector â blaenoriaeth ar gyfer twf rhyngwladol.

Mae'r diwydiannau creadigol wedi chwarae rôl bwysig yn adfywiad economaidd Cymru – yn fwyaf amlwg yn y sector clyweledol. Yn 2017, awgrymodd Adolygiad o'r Diwydiannau Creadigol a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU fod Caerdydd wedi dod yn un o ganolfannau cynhyrchu cyfryngau mwyaf y DU y tu allan i Lundain, wedi'i chefnogi gan ddiwydiant cynhyrchu teledu annibynnol cryf. Mae'r sector yn parhau i dyfu'n gyflym, a chanfu adroddiad gan Barclays yn 2019 fod refeniw cwmnïau cynhyrchu bach a chanolig yng Nghymru wedi cynyddu 33% – cynnydd sylweddol uwch na thwf refeniw cyfartalog cwmnïau bach a chanolig mewn sectorau eraill o'r economi, sef 7%.⁴

Mae Nesta yn disgrifio Caerdydd fel dinas sy'n profi twf creadigol cyflym, wedi'i chefnogi gan fywiogrwydd cynyddol mewn technolegau digidol a'r cyfryngau, ac mae'n debygol o ddod yn lleoliad blaenllaw yn naearyddiaeth greadigol y DU. Fodd bynnag, mae Caerdydd a Chymru yn dal i aros am gydnabyddiaeth ryngwladol fel canolfan cynhyrchu clyweledol a chlwstwr creadigol o bwys.

NOD YR ADRODDIAD YW DECHRAU MAPIO CRYFDER CYFFREDINOL Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YNG NGHYMURU FEL Y GALLWN DDECHRAU ADRODD STORI CENEDL GREADIGOL A CHLWSTWR CYFRYNGAU PWYSIG AC SY'N DATBLYGU YN EI PHRIFFDINAS.

⁴ Gweler <https://businessnewswales.com/barclays-sees-big-increase-in-welsh-tv-and-film-production-revenue/>

Methodoleg

Proses casglu data

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar wybodaeth am 17,182 o endidau busnes a dynnwyd oddi ar FAME (cronfa ddata ar gwmnïau yn y DU a gyhoeddwyd gan Bureau van Dijk yn seiliedig ar ddata Tŷ'r Cwmnïau).⁵ Defnyddiwyd codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC 2007) a ddefnyddir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU i ddisgrifio'r diwydiannau creadigol⁶ i dynnu data ar fusnesau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru (gweler yr Atodiad am restr lawn o godau'r SIC).

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw hyn yn cynnwys pob math o waith creadigol (mae llawer o bobl creadigol yn gweithio mewn sectorau eraill) na gweithgareddau ac allbwn creadigol nad ydynt ar gyfer y farchnad.⁷ Felly, mae'n debygol mai ffigurau ceidwadol sydd gennym ar gyfer nifer y gweithwyr creadigol.

Proses cysoni data

Cafodd meysydd data gwag ar nifer y gweithwyr a throsiant eu cysoni drwy gymhwyso gwerthoedd canolrifol a chyfartalog y blynyddoedd perthnasol.⁸

O ran y gwaith dadansoddi, cafodd lleoliad a newidynnau eraill yn y data eu cyfoethogi gan wybodaeth ategol, gan gynnwys data gan Lywodraeth

⁵ Gweler <https://www.bvdinfo.com/en-gb>

⁶ Gweler Methodoleg Amcangyfrifon Economaidd Sectorau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (diweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2019): https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/778360/DCMS_Sectors_Economic_Estimates_-_Methodology.pdf

⁷ I gael rhagor o fanylion am sut y caiff diwydiannau creadigol ac economi creadigol y DU eu diffinio a'r hyn y maent yn ei gynnwys ac nad ydynt yn ei gynnwys o ran gweithgareddau, gweler: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/499683/CIEE_Methodology.pdf


⁸ Gweler Britton, J. N., a Legare, G. (2005). Clustering and the digital economy: New media in Toronto. Canadian Journal of Regional Science, 28(2), 329–348.

Cymru (gweler yr Atodiad i gael rhagor o wybodaeth am gyfyngiadau data).⁹

Amcangyfrifon ar sail rhagdybiaethau

Gwnaethom ymdrin â'r broses gysoni yn ofalus, a chafodd amcangyfrifon eu talgrynnu i lawr yn seiliedig ar y data dan sylw. Mae'r data'n cynrychioli ffigurau 2017, oni nodir fel arall (y data diweddaraf sydd ar gael yn 2019 o ganlyniad i ofynion cyflwyno cwmnïau). Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio meddalwedd Tableau.¹⁰

Yr ardaloedd daearyddol a gwmpesir



Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar Gymru, gan ddadansoddi'r data ymhellach ar gyfer De Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a Chaerdydd, sef ardaloedd lle mae llawer o weithgarwch o ran y diwydiannau creadigol. Mae De Cymru (fel y'i diffinnir yma) yn cynnwys ardaloedd daearyddol De-orllewin Cymru (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot) a De-ddwyrain Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerdydd). Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynrychioli'r 10 awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru ¹¹ (Pen-y-bont ar Ogwr,

⁹ Gweler <https://statscymru.llyw.cymru>

¹⁰ Gweler <https://www.tableau.com/>

¹¹ Gweler <https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/>

Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerdydd). Mae Caerdydd yn canolbwyntio ar ardaloedd post y ddinas.

Diffinio'r diwydiannau creadigol



Diffinnir y diwydiannau creadigol fel y diwydiannau hynny sydd â'u gwreiddiau mewn creadigrwydd, sgiliau a doniau unigol ac sydd â'r potensial i greu cyfoeth a swyddi drwy greu eiddo deallusol a manteisio arno.¹² Yn unol â chanllawiau'r Adran dros Dechnoleg

Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, mae'r diwydiannau creadigol yn cynnwys: hysbysebu a marchnata; pensaerniaeth; crefftau; dylunio a ffasiwn dylunwyr; ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth; TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol; cyhoeddi; amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd; a cherddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol. Er nad yw'r categorïau hyn yn berffaith – yn enwedig mewn byd o gydgyfeirio digidol – maent yn cael eu defnyddio'n eang ac ein galluogi i wneud cymariaethau.


¹² Mae'r diffiniad o'r diwydiannau creadigol yn dilyn canllawiau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gweler yr Atodiad am restr lawn o'r sectorau dan sylw a'r codau SIC a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon.

Canfyddiadau

Mentrau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru

Niferoedd allweddol

Mae ein hymchwil¹³ yn awgrymu bod mwy nag 8,000 o fentrau diwydiannau creadigol ar waith yng Nghymru. O blith y rhain, mae 6,400 wedi'u lleoli yn Ne Cymru, 4,600 ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a mwy na 2,00 yn y brifddinas.¹⁴ Mae'r clystyrau hyn o weithgarwch yn gyson â dadansoddiad Nesta, sydd hefyd yn dangos bod diwydiannau creadigol Cymru wedi'u crynodi yng Nghaerdydd. Dengys ein canfyddiadau fod Caerdydd yn cynnwys un rhan o ddeg o boblogaeth Cymru ond chwarter ei mentrau creadigol. Mae tua 15% o'r holl fentrau yng Nghaerdydd yn perthyn i'r diwydiannau creadigol, ymhell uwchlaw cyfartaledd y DU, sef 11%, a chyfartaledd Cymru, sef 8%.¹⁵ Mae hyn yn golygu bod y diwydiannau creadigol yn sector allweddol ym mhrifddinas Cymru, gyda bron cynifer o fentrau gweithredol â'r sector addysg ac iechyd preifat (gweler Ffigur 1).



Ffigur 1: Nifer y mentrau yn diwydiannau creadigol Caerdydd o gymharu â sectorau eraill (dim ond at ddiben cymharu y mae'r ffigurau hyn – maent yn seiliedig ar ddata presennol y Llywodraeth sy'n dosbarthu'r diwydiannau creadigol i sectorau eraill – yn benodol 'gwasanaethau eraill' a 'cynhyrchu' – felly bydd rhywfaint o orgyffwrdd).

¹³ Mae'r rhestr lawn o'r canlyniadau ar gyfer y boblogaeth o fentrau i'w gweld yn yr Atodiad.

¹⁴ Mae angen cadw mewn cof fod y niferoedd hyn yn seiliedig ar fentrau cofrestredig yng Nghymru. Wrth gwrs, mae rhai busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru wedi'u cofrestru rywle arall yn y DU. Er enghraifft, er bod ITV Cymru Wales wedi'i gofrestru yn Llundain, mae ganddo gangen fusnes yng Nghaerdydd. Nid yw'r mentrau hyn wedi'u cynnwys yn y niferoedd hyn.


¹⁵ Gweler hefyd Amacangyfrifon Economaidd Sectorau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon er mwyn cymharu:

<https://www.gov.uk/government/statistics/dcms-sectors-economic-estimates-2017-business-demographics>

Strwythur a throsiant cwmnïau

Mae mwy na 90% o'r mentrau yn niwydiannau creadigol Cymru wedi'u cofrestru fel cwmnïau cyfyngedig preifat. O blith y 10% sy'n weddill, mae 3% wedi'u cofrestru fel sefydliadau elusennol, 5% fel cwmnïau cyfyngedig drwy warant (cwmnïau nid-er-elw fel arfer) a 2% fel sefydliadau cyhoeddus, megis S4C a BBC Cymru Wales.

Mentrau bach yw cyfran fawr o'r 8,000 o fentrau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru felly mae eu trosiant cyfartalog yn dueddol o fod yn is na sectorau eraill. Cyfanswm eu trosiant amcangyfrifedig yw £3.6bn, sef 3% o gyfanswm y trosiant yng Nghymru. Mae mwy na thraean o'r trosiant hwn wedi'i ganoli yng Nghaerdydd, lle mae'r mentrau'n cynhyrchu trosiant amcangyfrifedig o £1.2bn (gweler Ffigur 2).




Ffigur 2: Trosiant y diwydiannau creadigol yng Nghymru a Chaerdydd dros amser.

Nifer y mentrau yn ôl sector

Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau creadigol yng Nghymru yn perthyn i dri sector:

- Mae 35% yn perthyn i'r sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol (3,251 o fentrau);
- Mae 18% yn perthyn i'r sector cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol (1,567 o fentrau); a
- Mae 18% yn perthyn i'r sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth (1,418 o fentrau).

Dyma'r tri sector mwyaf (o ran nifer y mentrau) ledled Cymru, De Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chaerdydd. Mae tua 5% o'r mentrau yn perthyn i'r sectorau hysbysebu, pensaernïaeth, dylunio a chyhoeddi ac mae llai nag 1% o'r mentrau yn perthyn i'r sector crefftiau a'r sector amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd (gweler Ffigur 3). Mae'r dosbarthiad yn debyg iawn i gyfansoddiad diwydiannau creadigol Llundain.¹⁶



Ffigur 3: Mae maint y sectorau creadigol yng Nghymru yn seiliedig ar nifer y mentrau.

Cyfraddau twf a mentrau newydd


Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi tyfu'n gynt yn y brifddinas nag yn unrhyw le arall. Mae nifer y mentrau lleol yn y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd yn cynyddu ar gyfradd o 2.2% y flwyddyn (yn seiliedig ar ddata rhwng 2009 a 2017), o gymharu â'r gyfradd gyfartalog yng Nghymru, sef 1.2%. Mae'r cyfraddau twf hyn yn gyson â'r cynnydd cyffredinol yn nifer y busnesau (y gyfradd twf gyfartalog ar gyfer nifer y busnesau yng Nghaerdydd yw 2.3% ac 1.4% yng Nghymru). Mae'r sectorau creadigol sy'n tyfu gyflymaf yn cynnwys pensaernïaeth, dylunio a ffasiwn dylunwyr; ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth; a cherddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol. Er enghraifft, yng Nghaerdydd gwelwyd twf

¹⁶ Gweler https://www.london.gov.uk/sites/default/files/londons_creative_industries_-_2017_update.pdf

cyfartalog o 2.5% yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth, 5% yn y sector dylunio a ffasiwn dylunwyr a 4.1% yn y sector pensaernïaeth.

Nid yw'r cyfraddau twf hyn yn ddangosyddion ar gyfer nifer y busnesau newydd a grëwyd: caiff hyn ei fynegi gan nifer y mentrau sy'n ymuno â'r diwydiannau creadigol lleol ac yn ymadael â nhw. Ystyrir bod trosiant cryf o fusnesau gweithredol yn arwydd o ddynamiaeth fusnes a thwf economaidd – ystyrir bod cwmnïau newydd yn arloesi ac yn chwarae rôl bwysig drwy greu swyddi. Ers y 1990au, bu cynnydd mawr yn nifer y mentrau yn y diwydiannau creadigol. Ar gyfartaledd, caiff 500 o fentrau creadigol newydd eu creu yng Nghymru bob blwyddyn. Yn 2018, roedd y ffigur yn arbennig o uchel, gyda 1,235 o fentrau creadigol newydd yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod tua 10% o'r holl fentrau yn economi greadigol Cymru yn rhai newydd, a bod tua 5% o fentrau'n gadael y farchnad bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, mae menter greadigol yng Nghymru yn goroesi am saith mlynedd, sy'n uwch na chyfartaledd y DU. Mae gan rai sectorau gyfraddau ymuno ac ymadael uwch na rhai eraill. Mae'r sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth a'r sector cerddoriaeth, yn benodol, wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y mentrau ers y 2010au (gweler Ffigur 4).



Ffigur 4: Nifer y mentrau sy'n ymuno â'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ac yn ymadael â nhw yn ôl sector.

Gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru

Niferoedd allweddol

Rydym yn amcangyfrif¹⁷ bod yr 8,000 o fentrau yng Nghymru yn cyflogi mwy na 40,000 o weithwyr yn *uniongyrchol*, sef 3.3% o gyfanswm y swyddi yng Nghymru.

Y brifddinas sydd â'r crynodiad mwyaf o bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol – mae tua 1 o bob 10 o swyddi mewn cwmnïau yng Nghaerdydd yn y diwydiannau creadigol.

Gan fod y diwydiannau creadigol yn dibynnu'n arbennig ar weithlu llawrydd mawr (yn sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o sectorau eraill), mae cyfran gyffredinol y swyddi yn y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd – ac yng Nghymru yn gyffredinol – yn debygol o fod yn llawer uwch na hyn.

Mae'r ffigur ar gyfer cyflogaeth yn tanamcangyfrif nifer y bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol, sy'n dibynnu'n arbennig ar weithwyr llawrydd. Ar gyfartaledd, mae bron 50% o weithlu creadigol y DU yn hunangyflogedig. Felly, gallwn amcangyfrif bod tua 80,000 o bobl yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru (gan gynnwys gweithwyr cyflogedig a llawrydd).

Maint cwmnïau a dosbarthiad sectorau yn seiliedig ar nifer y gweithwyr

Mae diwydiannau creadigol y DU yn cynnwys mentrau bach a microfentrau yn bennaf – amcangyfrifir eu bod yn cyfrif am 95% o fusnesau creadigol yn gyffredinol.^{18,19} Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru, lle mae mwy na 98%

¹⁷ Mae'r rhestr lawn o'r canlyniadau ar gyfer nifer y gweithwyr i'w gweld yn yr Atodiad.

¹⁸ Gweler <https://www.creativeindustriesfederation.com/sites/default/files/2018-12/Creative%20Industries%20Federation%20-%20Growing%20the%20UK%27s%20Creative%20Industries.pdf>

¹⁹ Ni ellir gwahaniaethu rhwng microfentrau a mentrau bach yn y set ddata gan nad yw mentrau llai yn datgan nifer y gweithwyr mor aml ac, felly, gellir gwneud cyfrifiadau ar sail y broses gysoni yn unig (gweler yr Atodiad).

o gwmnïau yn y diwydiannau creadigol yn cyflogi llai na 50 o weithwyr.²⁰ Dim ond 30 o fentrau sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr (mentrau canolig) a dim ond pump sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr (mentrau mawr).

Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at natur benodol iawn economi creadigol Cymru a chlwtwr creadigol Caerdydd. Er mwyn i gymorth strategol ar gyfer y sector creadigol fod yn effeithiol, mae angen ei deilwra i ecosystem lle mae 98% o'r cwmnïau yn fusnesau bach a gefnogir gan boblogaeth fawr o weithwyr llawrydd. Mae hyn yn golygu bod angen ailystyried strategaethau diwydiannol traddodiadol, sy'n seiliedig ar gwmnïau angori mawr â chapasiti ymchwil a datblygu, yn y bôn.



Ffigur 5: Mae maint y sectorau creadigol yng Nghaerdydd yn seiliedig ar nifer y gweithwyr.

Mae dosbarthiad gweithwyr yn sectorau gwahanol y diwydiannau creadigol yn cyfateb i ddsbarthiad mentrau (gweler Ffigur 3 uchod).

²⁰ Gweler https://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php/Glossary:Enterprise_size

- Mae mwy na 14,000 o bobl yn gweithio yn y sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol yng Nghymru.
- Mae'r sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth yn cyflogi mwy nag 8,000 o bobl ledled Cymru.
- Mae'r sector cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol yn cyflogi mwy na 7,000 o bobl ledled Cymru.

Yng Nghaerdydd, mae'r sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth yn arbennig o bwysig, ac mae'r sector hwn yn cyfrif am fwy na chwarter y bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol yn y brifddinas (gweler Ffigur 5).


Mae nifer y bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cynyddu ar raddfa flynyddol gyfartalog o 1.9%. Caerdydd oedd â'r gyfradd twf gryfaf, sef 2.7%, sy'n cyfateb i 300 o swyddi newydd yn y diwydiannau creadigol bob blwyddyn. Mae'r cyfraddau twf hyn yn uwch na'r cynnydd yn nifer y mentrau (gweler uchod), sy'n dangos bod twf yn deillio o *fusnesau newydd yn cael eu creu a thwf mewn maint* mentrau presennol.

Cyfraddau cynnydd yn nifer y gweithwyr

Gwelwyd cyfraddau twf mewn cyflogaeth uwch na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o'r sectorau creadigol eraill. Felly, er enghraifft, gwelsom gyfradd twf flynyddol gyfartalog o (gweler Ffigur 6):

- 6.1% yn y sector pensaernïaeth;
- 5.1% yn y sector dylunio;
- 4.4% yn y sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol;
- 2.3% yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth.

Y sector hysbysebu a marchnata yw'r unig un o blith sectorau'r diwydiannau creadigol lle mae'r gyfradd gyflogaeth yn gostwng.




Ffigur 6: Cynnydd yn nifer y gweithwyr yn economi greadigol Caerdydd yn ôl sector

Cydnabyddiaeth ariannol yn y diwydiannau creadigol

Incwm blyneddol cyfartalog gweithwyr yn niwydiannau creadigol Cymru yw 24,000 GBP (gan gynnwys cyflogau a phensiynau),²¹ sydd ychydig islaw'r incwm cyfartalog yng Nghymru, sef 25,000 GBP. Ond mae'r duedd o ran y cynnydd mewn cyflogau yn adrodd stori wahanol.


²¹ Nodwn fod yr amcangyfrifon o ran cydnabyddiaeth ariannol gweithwyr yn seiliedig ar tua 1% yn unig o fentrau yn economi greadigol Cymru. Er enghraifft, ar gyfer 2017, dim ond ar gyfer 131 o fentrau y mae data ar gydnyddiaeth ariannol ar gael.



Ffigur 7: Cydnabyddiaeth ariannol gyfartalog yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru dros amser.

Rhwng 2009 a 2017, cynyddodd cydnabyddiaeth ariannol yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru 2.7% y flwyddyn (gweler Ffigur 7) o gymharu â chyfradd cynnydd blynyddol gyfartalog Cymru, sef 1.5%.

Mae'r ffigurau hyn hefyd yn cuddio gwahaniaethau sylweddol rhwng sectorau. Yn y sector ffilm, teledu, radio a ffotograffiaeth y telir y cyflogau uchaf yng Nghymru, sef £47,000 ar gyfartaledd, sydd bron ddwywaith yn fwy na'r cyflog cyfartalog yng Nghymru. Gwelsom hefyd incymau uwch na'r cyfartaledd yn y sector hysbysebu a marchnata, y sector cyhoeddi a'r sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol (gweler Ffigur 8). Gwelsom lefelau cyflog is yn y sectorau hynny sy'n dibynnu fwyaf ar y sector cyhoeddus, yn enwedig y sector cerddoriaeth a'r celfyddydau perfformio a'r sector amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd. Nid oes gwahaniaethau mawr mewn cyflog rhwng ardaloedd daearyddol yng Nghymru.



Ffigur 8: Cydnabyddiaeth ariannol gyfartalog fesul gweithiwr yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn ôl sector (nid yw rhai sectorau wedi'u cynnwys oherwydd diffyg data).

Cydbwysedd rhwng y rhywiau


Dengys ein data mai menywod yw 34% o gyfarwyddwyr cwmnïau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru ar gyfartaledd (gweler Ffigur 9). Er bod y ffigur hwn yn awgrymu anghydbwysedd, mae hon yn ganran uwch na chyfartaledd yn y DU, lle nad yw ond 28% o'r arweinwyr yn y diwydiannau creadigol yn fenywod.

Awgryma ymchwil flaenorol fod gwahaniaethau rhwng y rhywiau rhwng y sectorau sy'n fwy cysylltiedig â busnes (e.e. pensaernïaeth, TG, creu rhaglenni teledu a ffilmiau masnachol) a sectorau sy'n gysylltiedig â diwylliant (e.e. amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, lluniau/fideos dogfennol a chynhyrchu). Yn fyr, sectorau gwrywaidd yw'r rhai sy'n gysylltiedig â busnes yn draddodiadol, tra bod menywod yn aml yn dominyddu mewn sectorau sy'n gysylltiedig â diwylliant.²²

Mae ein data yn cadarnhau hyn. Felly, er enghraifft, menywod yw 68% o'r cyfarwyddwyr yn y sector crefftiau yng Nghymru, o gymharu â dim ond 27% yn y sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol yng Nghymru. Wrth dracio hyn yn erbyn y data ar gydnabyddiaeth ariannol (Ffigur 9), gallwn weld bod dynion yn fwy amlwg yn y sectorau creadigol â chyflogau uwch a bod menywod yn fwy amlwg yn y sectorau â chyflogau is, gan awgrymu anghydbwysedd posibl sylweddol o ran cyflog rhwng y rhywiau.

²² Gweler

https://www.britishcouncil.org/sites/default/files/gender_equality_and_empowerment_cci_eastern_partnership_2018_en-compressed.pdf



Ffigur 9: Canran y cyfarwyddwyr benywaidd yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.


Daearyddiaeth y diwydiannau creadigol yng Nghymru

Mae'r mapiau canlynol yn dangos dosbarthiad daearyddol y diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan roi ymdeimlad o ddsbarthiad pob sector ledled Cymru. Mae pob cylch ar y mapiau yn cynrychioli ardal cod post. Mae maint y cylch yn dangos nifer y gweithwyr yn y diwydiannau creadigol yn yr ardal honno.


Yn gyffredinol, mae'r mapiau'n dangos dwysedd uchel o weithwyr yn y diwydiannau creadigol yn ardal De Cymru, y mae Caerdydd yn rhan annatod ohoni. Fodd bynnag, gwelir rhai gwahaniaethau rhwng sectorau:

- Mae'r sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth wedi'i ganoli'n gryf yn Rhanbarth Dinas Caerdydd.
- Mae'r sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol, y sector cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol, y sector dylunio a ffasiwn dylunwyr a'r sector cyhoeddi wedi'u canoli yn y De a Chaerdydd, ac maent hefyd – yn enwedig y sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol – wedi'u cydgrynhoi mewn rhannau o'r Gogledd-ddwyrain (ger Manceinion a Lerpwl) a/neu'r De-orllewin.
- Mae'r sector pensaernïaeth, y sector crefftau a'r sector amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd yn dangos llawer llai o gynodiad, ac maent wedi'u gwasgaru'n fwy cyfartal ledled Cymru.

Ffigur 10: Dosbarthiad gweithwyr yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.




Ffigur 11: Dosbarthiad gweithwyr yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth yng Nghymru.




Ffigur 12: Dosbarthiad gweithwyr mewn sectorau creadigol gwahanol yng Nghymru.


Y sector TG,
meddalwedd a
gwasanaethau
cyfrifiadurol




Y sector
cerddoriaeth, y
celfyddydau
perfformio a'r
celfyddydau
gweledol



Y sector
hysbysebu a
marchnata




Y sector
dylunio a
ffasiwn
dylunwyr




S


Y sector
cyhoeddi




Y sector
pensaerniaeth



Y sector
crefftau



Y sector
amgueddfeydd,
orielau a
llyfrgelloedd



CASGLIAD

MAE EIN CANFYDDIADAU'N CADARNHAU BOD Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YN RHAN BWYSIG AC SY'N TYFU O ECONOMI CYMRU.

Rydym wedi amcangyfrif bod mwy nag 8,000 o fentrau gweithredol ac 80,000 o bobl yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r nifer hwn yn debygol o gynyddu, yn enwedig yn y sectorau creadigol hynny – fel ffilm a theledu – lle rydym wedi gweld cyfraddau twf uwch na'r cyfartaledd. Mae cyflogau yn y sector ffilm a theledu eisoes bron ddwywaith yn fwy na'r cyflog cyfartalog yng Nghymru, ac mae cyflogau yn y diwydiannau creadigol yn cynyddu ar gyfradd sy'n debygol o olygu y bydd cydnabyddiaeth ariannol yn y diwydiannau creadigol yn codi uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Yng Nghymru, mae tri phrif sector yn y diwydiannau creadigol: **TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol; ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth; a cherddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol.** Yng Nghaerdydd, mae cwmnïau yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth yn cyflogi mwy na 3,000 o bobl (mwy na chwarter y bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd).

Mae diwydiannau creadigol Cymru wedi cydgrynhoi ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, y mae Caerdydd yn rhan greiddiol ohono. Mae presenoldeb darlledwyr mawr fel BBC Cymru Wales, ITV ac S4C yn y brifddinas, ochr yn ochr ag amrywiaeth o gwmnïau a sefydliadau cenedlaethol (fel Ffilm Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru), argaeledd gofod stiwdio mawr (yn benodol pentref ddrama Porth y Rhath y BBC a Stiwdio Blaidd), ac amrywiaeth o ofod cydweithio creadigol (fel Rabble, Tramshed Tech a Welsh Ice) wedi gwneud **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn ogystal â'r DU.** Gwelsom fod **15% o fentrau yng Nghaerdydd yn perthyn i'r diwydiannau creadigol.** Mae Caerdydd hefyd wedi dod yn un o ddinasoedd mwyaf blaenllaw y DU ym myd y cyfryngau, gyda chanolfan cynhyrchu teledu a ffilmiau sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol.

Nid yn unig y mae'r diwydiannau creadigol yn golofn bwysig ar gyfer twf economaidd ac yn ffordd o ad-drefnu'r economi leol, ond maent hefyd yn

adrodd stori'r genedl, gan gynrychioli a hyrwyddo diwylliant Cymru, talent Cymru a'r iaith Gymraeg.

Serch hynny, mae'r diwydiannau creadigol yn wynebu heriau enfawr mewn byd digidol sy'n newid yn gyflym. Yn wahanol i economi fyd-eang lle mae cwmnïau mawr a hynod integredig ym myd y cyfryngau a thechnoleg yn dominyddu (e.e. Disney, Amazon, Comcast), **microfusnesau a busnesau bach yw 98% o'r mentrau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru**. Bydd angen mathau penodol o gymorth arnynt er mwyn iddynt ffynnu mewn marchnad fyd-eang gystadleuol.

Mae hyn yn cynnwys creu rhwydweithiau cydweithredol a all hyrwyddo synergeddau rhwng cwmnïau annibynnol â Chymru, gan ddarparu adnoddau i roi'r amser a'r gofod iddynt arloesi, gan sicrhau cronfa sgiliau a thalent. Byddai eu gwydnwch economaidd hefyd yn cael ei gryfhau gan gyfres o systemau cymorth a ddefnyddir gan gwmnïau mwy, o gyngor cyfreithiol a busnes wedi'i deilwra (gydag Eiddo Deallusol yn fater pwysig i'r sectorau creadigol) er mwyn helpu i hyrwyddo a chyrraedd marchnadoedd rhyngwladol.

Mae mentrau newydd fel Clwstwr a Cymru Greadigol, ochr yn ochr ag asiantaethau ariannu strategol fel Ffilm Cymru Wales, Cyngor Celfyddydau Cymru, rhwydweithiau fel Caerdydd Greadigol a darlledwyr cenedlaethol fel BBC Cymru Wales ac S4C, yn cymryd camau pwysig i'r cyfeiriad hwn. Fodd bynnag, bydd angen gwneud mwy er mwyn symud diwydiannau creadigol Cymru oddi ar y map cenedlaethol i'r map rhyngwladol.

Atodiadau

Atodiad 1: Terfynau methodolegol

Mae ein proses ymchwil yn cynnwys rhai cyfyngiadau anochel:

Yn gyntaf, mae'r diwydiannau creadigol yn cynnwys strwythurau cymhleth ac mae datblygiadau technolegol cydgyfeiriol yn cael effaith fawr arnynt. Nid yw'r diffiniadau o'r diwydiannau creadigol drwy **systemau dosbarthu (fel SIC) a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yn gyfyngedig nac yn hollgynhwysfawr**. At hynny, gall fod anghysondebau rhwng y codau a briodolwyd a gweithgarwch busnes gwirioneddol.

Yn ail, mae gweithio gydag ystadegau'r diwydiant yn golygu bod **cyfyngiadau ar argaeledd data**. Mae data ariannol ar gwmnïau yn cynnwys nifer o gyfyngiadau. Y benodol, nid yw'r DU yn gosod unrhyw ofynion cyflwyno gorfodol ar weithwyr llawrydd, ac nid yw cwmnïau bach yn cyflwyno ffigurau ariannol manwl. Dim ond tua 5% o'r mentrau creadigol a dynnwyd o FAME sy'n cynnwys niferoedd yn ymwneud â gweithwyr. Mae'r 95% sy'n weddill wedi cael eu cysoni gan ddefnyddio cyfrifiadau yn seiliedig ar werthoedd canolrifol a chyfartalog fesul blwyddyn. Ni chafodd BBC Cymru – y cyflogwr mwyaf ym myd y cyfryngau yng Nghymru – ei gynnwys yn y gronfa ddata chwaith o ganlyniad i ofynion cyflwyno (ychwanegwyd gwybodaeth yn ystod y broses ymchwil). Roedd angen cysoni celloedd data eraill nad oeddent ar gael o ganlyniad i ofynion adrodd a chyfyngiadau amser.

Yn drydydd, **nid yw'r data sydd ar gael yn ein galluogi i wahaniaethau'n uniongyrchol rhwng cyfeiriadau masnachu, cyfeiriadau at ddibenion cyflwyno a chyfeiriadau is-gwmnïau**. Dim ond cwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn un o'r lleoliadau a ddadansoddwyd sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. Nid yw'r data yn ein galluogi i weld ble mae gweithwyr wedi'u lleoli ac felly ble yn union y mae gweithgareddau economaidd yn digwydd. Defnyddiwyd cyfrifon cyfnerthedig, gan olygu os bydd is-gwmnïau yn gweithio mewn lleoliadau gwahanol, y caiff trosiant a nifer y gweithwyr eu dynodi i un lleoliad o hyd.

Atodiad 2: Codau SIC 2007 y diwydiannau creadigol

Sector y Diwydiannau Creadigol.	Côd SIC	Disgrifiad
Hysbysebu a marchnata	70.21	Gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu
	73.11	Asiantaethau hysbysebu
	73.12	Cynrychiolaeth yn y cyfryngau
Pensaerniaeth	71.11	Gweithgareddau pensaernïol
Crefftau	32.12	Gweithgynhyrchu gemwaith ac erthyglau cysylltiedig
Dylunio a ffasïwn dylunwyr	74.1	Gweithgareddau dylunio arbenigol
Ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth	59.11	Gweithgareddau cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
	59.12	Gweithgareddau ôl-gynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
	59.13	Gweithgareddau dosbarthu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
	59.14	Gweithgareddau rhagamcan ffilmiau
	60.1	Darledu radio
	60.2	Gweithgareddau rhaglennu a darledu teledu
	74.2	Gweithgareddau ffotograffig
TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol	58.21	Cyhoeddi gemau cyfrifiadurol
	58.29	Cyhoeddi meddalwedd arall
	62.01	Gweithgareddau rhaglennu cyfrifiaduron
	62.02	Gweithgareddau ymgynghoriaeth gyfrifiadurol
Cyhoeddi	58.11	Cyhoeddi llyfrau
	58.12	Cyhoeddi cyfeiriaduron a rhestrau postio
	58.13	Cyhoeddi papurau newydd
	58.14	Cyhoeddi cyfnodolion
	58.19	Gweithgareddau cyhoeddi eraill
	74.3	Gweithgareddau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd
Amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd	91.01	Gweithgareddau llyfrgelloedd ac archifau
	91.02	Gweithgareddau amgueddfeydd
Cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol	59.2	Gweithgareddau recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth
	85.52	Addysg ddiwylliannol
	90.01	Y celfyddydau perfformio
	90.02	Gweithgareddau i gefnogi'r celfyddydau perfformio
	90.03	Creu celf
	90.04	Gweithredu cyfleusterau'r celfyddydau

Atodiad 3: Canlyniadau poblogaeth mentrau

		Cymru	De Cymru	Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	Caerdydd (tref post)
Yr economi greadigol	Nifer y mentrau	8,464	6,442	4,646	2,033
	Canran y cyfanswm	8.25%	9.1%	9.4%	15.8%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (9-17)	1.2%	1.3%	1.4%	2.2%
Hysbysebu a marchnata	Nifer y mentrau	596	468	363	183
	Canran y cyfanswm	0.5%	0.6%	0.7%	1.4%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	0.04	0.3%	0.7%	1.5%
Pensaernïaeth	Nifer y mentrau	464	339	216	80
	Canran y cyfanswm	0.4%	0.5%	0.4%	0.6%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	3.3%	3.8%	3.3%	4.1%
Crefftau	Nifer y mentrau	39	30	19	6
	Canran y cyfanswm	0.03%	0.04%	0.03%	0.04%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	1.4%	1.0%	3.2%	-1.4%
Dylunio a ffasiwn dylunwyr	Nifer y mentrau	479	358	267	112
	Canran y cyfanswm	0.4%	0.5%	0.5%	0.8%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	4.8%	4.9%	5.1%	5.0%
Ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth	Nifer y mentrau	1,418	1,163	855	424
	Canran y cyfanswm	1.4%	1.6%	1.7%	3.3%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	2.2%	2.5%	2.4%	2.5%
TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol	Nifer y mentrau	3,251	2,445	1,793	676
	Canran y cyfanswm	3.2%	3.4%	3.6%	5.3%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	0.2%	0.3%	0.3%	1.6%
Cyhoeddi	Nifer y mentrau	573	420	282	126
	Canran y cyfanswm	0.5%	0.6%	0.6%	0.9%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	0.2%	0.08%	0.08%	1.6%
Amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd	Nifer y mentrau	75	42	19	6
	Canran y cyfanswm	0.07%	0.06%	0.04%	0.05%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	2.0%	1.2%	4.2%	24%
Cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol	Nifer y mentrau	1,567	1,177	832	420
	Canran y cyfanswm	1.5%	1.7%	1.7%	3.3%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	1.7%	1.8%	1.8%	2.7%

Atodiad 4: Canlyniadau gweithwyr

		Cymru	De Cymru	Prifddinas- Ranbarth Caerdydd	Caerdydd (tref post)
Yr economi greadigol	Nifer y gweithwyr	40,404	32,063	22,819	12,226
	Canran y cyfanswm	3.3%	3.7%	3.7%	8%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (9-17)	1.9%	2.0%	1.8%	2.7%
Hysbysebu a marchnata	Nifer y gweithwyr	2,728	2,208	1,788	1,068
	Canran y cyfanswm	0.2%	0.3%	0.3%	0.7%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	-1.1%	-1.2%	-1.3%	-1.9%
Pensaerniaeth	Nifer y gweithwyr	1,907	1,407	915	371
	Canran y cyfanswm	0.2%	0.2%	0.1%	0.2%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	3.7%	4.4%	4.4%	6.1%
Crefftau	Nifer y gweithwyr	156	120	76	24
	Canran y cyfanswm	0.01%	0.01%	0.01%	0.01%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	1.5%	1.0%	3.2%	1.5%
Dylunio a ffasiwn dylunwyr	Nifer y gweithwyr	1,916	1,432	1,068	448
	Canran y cyfanswm	0.2%	0.2%	0.2%	0.3%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	4.9%	5.0%	5.2%	5.1%
Ffilm, teledu, fideo, radio a fotograffiaeth	Nifer y gweithwyr	8,717	7,697	4,932	3,210
	Canran y cyfanswm	0.7%	0.9%	0.8%	2.1%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	2.9%	3.2%	2.3%	2.3%
TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol	Nifer y gweithwyr	14,797	11,519	8,718	4,174
	Canran y cyfanswm	1.2%	1.3%	1.4%	2.7%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	1.4%	1.6%	1.8%	4.4%
Cyhoeddi	Nifer y gweithwyr	2,370	1,734	1,182	504
	Canran y cyfanswm	0.2%	0.2%	0.2%	0.3%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	0.5%	0.5%	1.4%	1.8%
Amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd	Nifer y gweithwyr	321	170	82	24
	Canran y cyfanswm	0.03%	0.02%	0.01%	0.02%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	2.6%	2.5%	3.3%	23.9%
Cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol	Nifer y gweithwyr	7,492	5,776	4,058	2,403
	Canran y cyfanswm	0.6%	0.7%	0.7%	1.6%
	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog (09-17)	2.3%	2.4%	1.7%	2.2%

Atodiad 5: Ynglŷn â'r awduron

DR MARLEN KOMOROWSKI, DADANSODDWR EFFAITH CLWSTWR, PRIFYSGOL CAERDYDD

Marlen sy'n cynnal y dadansoddiad effaith o ymyriadau'r Clwstwr yn y sector sgrin (a'r diwydiannau creadigol yn fwy cyffredinol) yn Ne Cymru. Mae hi hefyd yn gysylltiedig â chanolfan ymchwil imec-SMIT-VUB (Astudiaethau Cyfryngau, Arloesi a Thechnoleg) ym Mrwsel. Fel ymchwilydd, mae ei gwaith yn canolbwyntio ar brosiectau'n ymwneud â'r cyfryngau a'r diwydiannau creadigol, dadansoddi effaith, clystyru'r diwydiant, dadansoddi ecosystem a rhwydwaith gwerth, modelau busnes newydd ac effaith digido ar ddiwydiannau a ffilm.

YR ATHRO JUSTIN LEWIS, CYFARWYDDWR CLWSTWR, PRIFYSGOL CAERDYDD

Justin yw'r Athro Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Prifysgol Caerdydd. Mae wedi cynnal gwaith ymchwil gyda nifer o wahanol sefydliadau creadigol, gan gynnwys y BBC, Ymddiriedolaeth y BBC, Channel 4, y Guardian, yn ogystal â chynghorau ymchwil y DU ac Ewrop. Mae wedi cyhoeddi dros 100 o lyfrau, erthyglau mewn cyfnodolion a phenodau am ystod eang o faterion yn ymwneud â'r cyfryngau a diwylliant.

Os oes gennych gwestiynau am yr adroddiad hwn, cysylltwch â Marlen Komorowski drwy komorowskim@cardiff.ac.uk.



Cysylltwch â

Dr. Marlen Komorowski

Dadansoddwr Effaith ym Mhrifysgol
Caerdydd ac Uwch-ymchwilydd yn imec-
SMIT-VUB (Vrije Universiteit Brussel) -
komorowskim@cardiff.ac.uk

Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gyda
chymorth ariannol gan AHRC a
Llywodraeth Cymru. Yr awdur sy'n gyfrifol
am ei gynnwys.

© 2020 Clwstwr, rhaglen ym Mhrifysgol
Caerdydd Cedwir pob hawl.

Dyfyniad awgrymedig

Komorowski, M. a Lewis, J. (2020). Adroddiad
Clwstwr ar y diwydiannau creadigol rhif 1 – Maint a
chfansoddiad y diwydiannau creadigol yng
Nghymru. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr,
Caerdydd, Clwstwr.